

PALASU HWY

**SYNIADAU
CYCHWYN ARNI**



SYNIADAU CYCHWYN ARNI

Gofynnir i ni'n aml sut mae pobl yn mynd ati i greu eu Palas Hwyl, sut i gydweithio â phobl leol a'r hyn y gallant ei greu a'i wneud yn eu Palas Hwyl.

Dyma rai syniadau rydym wedi'u casglu dros y blynyddoedd:

- Rhoddodd Whitstable Museum of Fun hwb i'w hunain ar Twitter. Mae cyfryngau cymdeithasol yn ffordd wych o gysylltu pobl a lleoedd Palasau Hwyl. Codwch law i ni @palasauhwyl a byddwn yn gwneud ein gorau glas i'ch cysylltu chi â phobl ddefnyddiol.
- Creodd Llyfrgelloedd Lambeth 11 o Balasau Hwyl ar draws y fwrdeistref yn 2015 a chreodd pob un o'r 13 o Lyfrgelloedd yn Oldham Balasau Hwyl yn 2016 - gwnaethant godi posteri fu'n gofyn dau gwestiwn, gyda lle i roi atebion oddi tanynt: 'Beth hoffech chi ei wneud neu ei ddysgu?' a 'Beth allwch ei gynnis i'w rannu neu ei ddysgu?' Pwysleiswch mai'r nod yw cael angerdd neu frwdfrydedd dros rywbeth - mae croeso i arbenigwyr hefyd!
- Crëwyd Palas Hwyl Farnham gan grŵp o bobl sy'n gweithio gyda'i gilydd yr oeddent eisiau gwneud rhywbeth yn eu cymuned.
- Crëwyd Palas Hwyl Lido Brockwell gan nifer o artistiaid, pobl sy'n mynd i'r gampfa a rhai eraill o grŵp gweithredu lleol. Fe ddechreuodd gydag un person yn unig, yn y pen draw crëwyd y Palas Hwyl gan tuag 20 o bobl gan i bob person ddod â ffrind gyda nhw i gymryd rhan.
- Yn Theatrau Sheffield ac mewn llawer o ganolfannau celfyddydau a gwyddoniaeth eraill, gwahoddodd Crewyr bobl leol (rhai'n artistiaid, rhai ddim) i mewn i ddefnyddio eu gofodau ac i greu'r Palas Hwyl yn eu lleoliad lleol.
- Yn ARC Stockton yn 2016, gofynnwyd i'r bobl leol fu'n defnyddio eu cyntedd a chaffi i redeg eu Palas Hwyl.
- Ym Mhalas Hwyl Ysgol Old Bexley, cnociodd y Pennaeth ac athrawon ar ddrysau yn y strydoedd ger yr ysgol, gan wahodd unrhyw un i gymryd rhan, nid y CRhA na rhieni'r plant, ond UNRHYW UN yn y gymuned.
- Mae Llyfrgell Gillingham yn Dorset wedi creu dau Balas Hwyl a rhoi thema wahanol i bob un. Mae Afon Stour yn llifo trwy'r dref, saif y llyfrgell ar droad yn yr afon, felly roedd eu Palas Hwyl cyntaf yn ymwneud yn gyfan gwbl â 'hylifau'. Cynhaliwyd llawer o weithgareddau yn y llyfrgell - jig-sos o olygfeydd dŵr, sgysiaid TED gysylltiedig â hylifau ar eu sgrîn fawr, celf dyfrlliw, CSI gyda'r heddlu lleol, perfformiad gan gôr cymunedol, cymerodd y bwrdd dŵr a'r archfarchnadoedd ran hyd yn oed.



Cyflawniadau cyflym!

- Mae Geidiau/Brownis/Sgowtiaid/Cybiau lleol yn wych, yn enwedig gan fod y plant hŷn eisiau/angen arwain digwyddiadau fel rhan o ddatblygu eu sgiliau eu hunain.
- Defnyddiwch 'gwyddor' rhywbeth a 'chelfyddyd' rhywbeth i feddwl am sut i integreiddio'r celfyddydau a gwyddoniaeth e.e. celfyddyd/gwyddor coginio, lliwiau, dŵr, jin...etc.!
- Meddyliwch am weithgareddau annisgwyl i drawsnewid gofod - e.e. gweithgareddau swllyd mewn llyfrgell neu amgueddfa, neu ofodau tawel yn eich Palas Hwyl, gan gynnig gweithgareddau 'eistedd yn esmwyth a gwranddo' er mwyn cynnig saib i'r cyfranogwyr.
- Mynd yn Athro rhywbeth ... e.e. Athro hufen iâ/pom-poms/trwsio beiciau.
- Os bydd ysgolion lleol yn cymryd rhan, ystyriwch wneud gweithgaredd ymlaen llaw fel y gallant ddod i benwythnos y Palas Hwyl a gweld eu gwaith, a dod â'u cyfeillion a theuluoedd hefyd.
- Pan fydd mwy nag un lleoliad, beth am greu rhestr wirio helpa drysor o sgiliau a gweithgareddau sydd angen ei thicio i helpu sicrhau bod pobl yn ymweld â'r holl leoliadau?

Awgrymiadau da:

- Gall Palas Hwyl bara am gymaint o amser ag y mynnwch - o gwpl o oriau i'r penwythnos cyfan, chi sy'n penderfynu.
- Mae Palasau Hwyl ar gyfer pawb ac unrhyw un, pob oedran. Ystyriwch sut i wneud eich Palas Hwyl yn hollol gynhwysol ac yn addas i bob cenhedlaeth.
- Dechreuwch gyda rhywbeth syml, nid oes angen iddo fod yn ddigwyddiad anferthol, gwnewch rywbeth sy'n hwyl ac o fewn eich galluoedd - gallwch adeiladu arno y flwyddyn wedyn.

Dechreuwch ble yr ydych chi, gyda phwy yr ydych chi. Gwahoddwch bobl eraill i ymuno â chi. Bydd ganddynt syniadau sy'n wahanol i'ch rhai chi, po fwyaf amrywiol a gwahanol y mae eich Palas Hwyl, mwyaf y bydd gennych i'w gynnig i'r rhai sydd eisiau cymryd rhan.